# Cyngor Sir Ynys Môn

# Gweithdrefn Rheoli Legionella

# Fersiwn 1.0  Awst 2016

**Am y polisi hwn**

Mae clefyd y Llengfilwyr yn fath o niwmonia a all fod yn angheuol neu a all lethu’r dioddefwr yn barhaol.  Gall effeithio unrhyw un ond yn bennaf, mae’n effeithio’r rheiny sy’n fregus oherwydd oed, gwaeledd ac/neu sy’n wrthimiwnaidd.  Fe’i hachosir gan y bacteriwm Legionella pneumophila a bacteria cysylltiedig. Mae bacteria Legionella yn gyffredin ac maent i’w canfod yn naturiol mewn ffynonellau dwr amgylcheddol.  Mewn amser, gall bacteria Legionella gytrefu mewn systemau dwr poeth ac oer a pheiriannau eraill sy’n defnyddio neu sy’n storio dŵr.

Efallai y bydd y Cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i holl Unedau Busnes y Cyngor Sir, Ysgolion a chyfleusterau eraill

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Awst 2016 | |
| 1.0 | Gorffennaf 2017 | Dim newidiadau |
| 1.0 | Mai 2019 | Dim newidiadau |
| 1.0 | Ionawr 2021 | Dim newidiadau |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y polisi ar : | Gorffennaf 2021 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Iechyd a Diogelwch |

**Manylion cyswllt: 01248 752820**

**Health&Safety@ynysmon.gov.uk**

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Cynnwys

**1.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau**
**2.0 Mesurau Ataliol yn y Lle Gwaith**
**ATODIAD**

## 1.0 Dyletswyddau dan y Rheoliadau

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir Asesiad Risg digonol o'r systemau dwr ac y cofnodir y manylion ar ffeil.

Yn ychwanegol at hyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau fod y bobl sy'n ymwneud â rheoli Legionella wedi cael hyfforddiant digonol a'u bod yn gymwys ac yn brofiadol i gyflawni eu dyletswyddau o ran gweithredu'r rhaglen rheoli risg.

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn berthnasol i'r broses o reoli legionella:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Hysbysu ynghylch Tyrau Oeri a Chyddwysyddion Anweddol 1992.

Mae methiant i gydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol yn drosedd a all arwain at ddirwyon amhenodol i'r Cyngor (e.e. Rhan 3 DIDG) ac at ddirwyo a charcharu unigolion sydd yn bersonol ar fai (e.e. Adran 7 DIDG).

Mae'r côd ymarfer a'r canllawiau canlynol wedi cael eu cyhoeddi i gynorthwyo i gynnal cydymffurfiaeth:

- L8 – rheoli bacteria Legionella mewn systemau dwr – côd ymarfer a chanllawiau a gymeradwywyd - ISBN 0717617726.
- Clefyd y Llengfilwyr - Gwybodaeth hanfodol i'r sawl sy'n darparu llety preswyl IND(G)376, a
- Rheoli Legionella mewn cartrefi gofal nyrsio a phreswyl IND(G)253L.
- Gwybodaeth hanfodol ar gyfer darparwyr INDG llety preswyl 376 05/03 tua 1000

## 2.0 Mesurau Ataliol yn y Lle Gwaith

Bydd y Cyngor, trwy ei gyfundrefn reoli, yn neilltuo rolau a swyddogaethau penodol i weithwyr dynodedig i reoli'r risg. Bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda chyhoeddiad y Gweithgor Iechyd a Diogelwch, "L8 Rheoli Bacteria Legionella mewn systemau dwr - côd ymarfer a chanllawiau cydnabyddedig" (ACOP L8). Gweler llifsiart o gyfrifoldebau yn Atodiad 1.

## Asesu Risg

Dylai pob Maes Gwasanaeth sicrhau bod gan yr holl systemau HWS a CWS asesiad risg addas a digonol ar gyfer legionella.  Asesydd cymwys ddylai gynnal yr asesiad risg.

Dylai'r asesiad risg legionella nodi mesurau ataliol a gwarchodol mewn perthynas â legionella.  Dylai'r asesiad risg gynnwys llun diagramaidd o'r system ddŵr fel y mae.  Dylid altro'r llun hwn wrth i'r system gael ei haltro.

Dylai'r asesiad risg legionella ystyried y bobl hynny a allai fod yn agored i legionella.  Dylid cymryd gofal arbennig o ran pobl a all fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan yr haint.   Gall hyn fod oherwydd oed, salwch, gwrthimiwnedd, ysmygu ac ati.

Yn yr asesiad risg, dylid ystyried y defnydd a wneir o'r system, e.e. cyfnodau hir heb ei defnyddio, tebygrwydd creu gollyngiad erosol ac ati.

Yr Adain Eiddo fydd yn trefnu asesiadau risg ar gyfer yr eiddo hynny sydd â chytundeb gwasanaeth gyda'r adran.

## Person Cyfrifol

Dylid enwebu a phenodi Person Cyfrifol i oruchwylio gweithrediad y mesurau ataliol a gwarchodol.  Dylai'r person cyfrifol fod yn rheolwr, yn gyfarwyddwr neu'n berson o statws ac awdurdod digonol ac â gallu a gwybodaeth ynghylch gosodiadau a gweithrediadau i sicrhau bod legionella'n cael ei reoli'n effeithiol.   Y Person Cyfrifol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Ysgrifenedig ar gyfer rheoli legionella'n cael ei baratoi a'i weithredu.

## Personau Cyfrifol Lleol

Dylai fod ym mhob Maes Gwasanaeth, Berson Cyfrifol Lleol wedi'i enwebu i gynorthwyo gyda'r mesurau diogelwch legionella a'u cynnal. Dylai'r Person Cyfrifol Lleol fod yn berson o statws ac awdurdod digonol ac â gallu a gwybodaeth i gynorthwyo'n effeithiol gyda'r gwaith o reoli legionella.

## Profion

Dylai pob Maes Gwasanaeth gynnal profion addas ar y systemau dwr yn eu meysydd.  Dylid nodi math ac amlder y profion yn yr asesiad risg.  Ceir canllawiau ynghylch profion cyfnodol yn Atodiad 2.  Mae'r canllawiau yn unol â'r canllawiau a geir yn ACOP L8.

## Cynnal a Chadw

Dylai pob Maes Gwasanaeth sicrhau bod yr eiddo a'r system ddŵr yn rhan o system gynnal a chadw addas a gynhelir gan berson cymwys.

Llyfr Log

Dylai pob Maes Gwasanaeth sicrhau bod llyfr log ar gyfer yr ardal / adeilad perthnasol.  Dylid cofnodi yn y llyfr log amser a dyddiad cynnal a chadw a rhoi prawf ar y systemau dwr.  Dylid cadw'r llyfr log gyda chofnodiadau eraill sy'n ymwneud â'r systemau dwr.

Gwybodaeth, Cyfarwyddyd a Hyfforddiant

Dylid rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant priodol i weithwyr yn ystod oriau gwaith arferol am y rhagofalon sydd yn eu lle ar gyfer rheoli legionella.

Dylid cadw cofnodiadau ynghylch unrhyw wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant a ddarparwyd.

Archwilio

O bryd i'w gilydd, dylid archwilio'r systemau a roddwyd yn eu lle i gynorthwyo gyda rheoli legionella.

**Gwybodaeth Bellach**

Am ychwaneg o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar 01248 752820.

## ATODIAD

## Atodiad 1: Enghreifftiau o gamau gwirio a phrofion

### Rhestr Wirio 1: Gosodiadau Oeri Dwr

| System/gwasanaeth | Tasg | Amlder |
|---|---|---|
| Tyrau oeri a chyddwysyddion anweddol | Monitro safon y dŵr, defnydd dwr a defnydd o fywleiddiaid/cemegolion i asesu'r drefn o ran trin dŵr a sicrhau ei bod yn effeithiol, gan gynnwys paramedrau microbiolegol ac arsylwi cyflwr mewnol yr adeilad a safon y dwr. | Mae amlder yn dibynnu ar y risg a dylid sicrhau cymorth person cymwys i gynorthwyo gyda hyn. |
| | Y system reoli ganolog, calibrad y synhwyrydd dargludedd, chwythu dwr dan bwysau, unffurfedd dosbarthiad y dŵr, cyflwr y chwistrellau/cafnau,dilëyddion, paciau, pwll, twymwyr tanddwr, ffaniau a thawelwyr sŵn. | Bob mis – 3 mis yn unol â'r risg uchod. |
| | Glanhau a diheintio'r tyrrau oeri/cyddwysyddion anweddol, tanciau'r system a systemau cysylltiedig gan gynnwys unrhyw arwynebeddau gwlyb a'u digennu yn ôl yr angen. Dylid tynnu'r paciau a'u glanhau lle mae hynny'n ymarferol. | Bob chwe mis |

## Rhestr Wirio 2: Gwasanaethau Dwr Poeth ac Oer

| Gwasanaeth | Tasg | Amlder |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Dwr Poeth | Trefnu i gymryd samplau o'r caloriffyddion dwr poeth er mwyn nodi cyflwr dwr traen | Bob blwyddyn |
| | Siecio tymheredd llif a dychweliad yn y caloriffyddion | Bob mis |
| | Siecio tymheredd y dŵr am hyd at un funud i weld a yw wedi cyrraedd 50°C yn y tapiau gwarchodol | Monthly |
| | Siecio'n weledol arwynebeddau mewnol y caloriffyddion i weld a oes cen a llaid arnynt. Siecio tymheredd y tapiau cynrychioliadol fel yr uchod ar sail gylchdroadol | Annually |
| Gwasanaethau dwr oer | Siecio tymheredd y tanc dwr i ffwrdd o'r pêl-falfiau a thymheredd y prif gyflenwad wrth y bêl-falf. Nodi'r tymereddau uchaf a gofnodwyd gan thermomedrau sy'n nodi'r tymheredd uchaf/isaf lle mae'r rheiny wedi eu gosod. | Bob chwe mis |
| | Siecio bod y tymheredd yn is na 20°C ar ôl rhedeg y dŵr am hyd at ddau funud yn y tapiau gwarchodol. | Monthly |
| | Archwilio'n weledol y tanciau storio dŵr oer a gwneud gwaith atgyweirio lle mae angen hynny. Gwirio tymheredd y tapiau cynrychioliadol fel yr uchod ar sail gylchdroadol. | Bob blwyddyn |
| Pennau Cawodydd | Tynnu pennau a phibellau cawodydd o'i gilydd a'u glanhau a chael gwared ar unrhyw gen | Yn chwarterol neu yn ôl yr angen |
| Allfeydd sy'n cael eu defnyddio'n anaml | Fflysio drwodd a gwacáu i'r draen neu eu gwacáu yn union cyn eu defnyddio heb ryddhau aerosolau | Bob wythnos |

## Rhestr Wirio 3: Systemau risg eraill

| System/gwasanaeth | Tasg | Amlder |
|---|---|---|
| Lleithyddion/tarthyddion uwchsain a systemau niwlo dŵr | Os oes goleuadau uwchfioled ar yr offer, siecio bod y lamp yn gweithio'n effeithiol (ei bod o fewn ei oes gweithio) a glanhau'r hidlwyr | Bob chwe mis neu'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr |
| | Sicrhau bod y system ar gyfer gwacáu dŵr gweddilliol yn awtomatig yn gweithio | Fel rhan o'r broses o gau'r peiriannau i lawr |
| | Glanhau a diheintio'r holl rannau gwlyb | Yn unol â'r asesiad risg |
| | Cymryd samplau i siecio am bresenoldeb legionella | Yn unol â'r asesiad risg |
| Lleithyddion chwistrell, wasieri aer a sgwrwyr gwlyb | Glanhau a diheintio lleithyddion chwistrell/wasieri aer a thanciau'r system gan gynnwys yr holl arwynebeddau gwlyb a chael gwared ar unrhyw gen sydd arnynt os oes angen | Bob chwe mis |
| | Cadarnhau bod y system trin dŵr heb gemegolion yn gweithio (os oes un) | Bob wythnos |
| Meddalyddion dwr | Glanhau a diheintio'r tanc resin a heli – siecio gyda'r gwneuthurwr i weld pa gemegolion y gellir eu defnyddio i ddiheintio'r gwely resin | Yn unol ag argymhelliad y gwneuthurwr |
| Cawodydd argyfwng a chwistrellyddion i olchi llygaid | Fflysio drwodd a'u gwacáu i'r draen | Bob chwe mis neu'n amlach os yw'r gwneuthurwyr yn argymell hynny |
| Systemau chwistrellu a phibellau ar rîl | Wrth arsylwi profion ar chwistrelli y chwythir dwr drwyddynt dan bwysau a phibellau ar rîl, sicrhau y cyfyngir i'r eithaf ar y risg ensure that there is minimum risk of exposure to aerosols | Yn unol â'r cyfarwyddyd |
| Systemau oeri turniau a pheiriannau | Glanhau a diheintio'r system storio a dosbarthu | Bob chwe mis |
| Baddonau Sba | Siecio'r hidlwyr – dylid adlifio'r hidlwyr tywod bob dydd | Bob dydd |
| | Siecio'r system trin dŵr - dylai pyllau gael eu trin yn barhaus gyda bywleiddiaid ocsideiddiol | Tair gwaith y dydd |
| | Glanhau a diheintio'r system gyfan | Bob wythnos |
| Systemau tarthu garddwriaethol | Glanhau a diheintio'r peipiau dosbarthu, pennau chwistrellau a thanciau'r system gan gynnwys yr holl arwynebeddau gwlyb a chael gwared ag unrhyw gen sydd arnynt yn ôl yr angen | Bob blwyddyn |
| Offer deintyddol | Draenio i lawr a glanhau | Ar ddiwedd pob diwrnod gwaith |
| Golchi ceir/bysys | Siecio'r system hidlo a thrin dŵr, glanhau a diheintio'r system | Gweler cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr |
| Ffownteni ac addurniadau dwr dan do | Glanhau a diheintio pyllau, pennau chwistrellau a thanciau'r system gan gynnwys yr holl arwynebeddau gwlyb a'u diheintio yn ôl yr angen | Amlder yn dibynnu ar eu cyflwr |